

TUDALEN 12

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom ar **18 Gorffennaf 2022** am 6.30 pm.

YN BRESENNOL: - Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gwynant Roberts, y Dirprwy Faer Cynghorydd Elin Walker Jones, Cynghorwyr Medwyn Hughes, Gareth Parry, Nigel Pickavance, Gareth Roberts, John Wyn Williams.

Swyddogion:- Gwynfor Owen (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion).

41/22 YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr Dylan Fernley, Huw Wyn Jones, Meic Pattison

42/22 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

43/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD datgan fod y cyfarfod hwn yn un CAEEDIG oherwydd natur sensitif yr eitem dan sylw.

44/22 PENODI CYFARWYDDWR DINESIG

Eglurodd Maer y Dref y cefndir i'r penodiad. Roedd y swydd Cyfarwyddwr Dinesig wedi cael ei hysbysebu mewn sawl ffordd ers ymadawiad y cyn gyfarwyddwr, h.y. yn rhan amser neu'n llawn amser, neu ddim ond Clerc y Dref newydd. Ni fynegwyd unrhyw ddi-ddordeb. Mae'n ymddangos fod cynghorau cymuned eraill yn cael yr un anhawster llenwi swyddi tebyg.

Roedd y Clerc y Dref dros dro presennol wedi dangos diddordeb mewn ymgeisio am y swydd ac roedd panel bychan wedi'i gyfweld yr wythnos gynt. Roedd y panel yn teimlo'n barod fod Martin Hanks yn glerc y dref hynod o effeithiol, ac y byddai hyn yn argoeli'n dda i'r her o fod yn Gyfarwyddwr Dinesig. Mae ef hefyd yn gwbl ddwyieithog.

Gofynnwyd am gyngor gan Gwilym Rippon o'r SATC o ran gwneud y penodiad heb hysbysebu ymhellach. Ei gyngor ef oedd, os oedd gan unigolyn y sgiliau a'r rhinweddau angenrheidiol, yna roedd hi'n briodol ac yn gyfreithlon penodi oddi mewn, yn dilyn cyfweliad gyda phanel bychan.

Felly, gofynnodd y Maer i'r Aelodau gadarnhau'r penodiad a dirprwyo'r hawl i'r Mawr i gynnig y swydd i Martin Hanks.

PENDERFYNWYD yn unfrydol i gynnig y swydd Cyfarwyddwr Dinesig i Mr Martin Hanks, ar sail llawn amser.

HEFYD i ddirprwyo i'r is-bwyllgor penodiadau yr awdurdod i benderfynu ar delerau ac amodau'r penodiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.55 pm

Yna cafwyd cyfarfod CAEDIG A CHYFRINACHOL o'r Is-bwyllgor Penodiadau, lle trafodwyd cyflog, telerau ac amodau deiliad y swydd.